

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

24 – 2001

CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY





Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Hiwmor yn y baledi Tegwyn Jones	3
Elizabeth Davies: 'ballad singer' Maredudd ap Huw	17
Canu i gyfeiliant ffidil yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif Cass Meurig	20
Nodyn ar ddwy gerdd gan Jac Glan-y-gors E. G. Millward	42
Hen alaw mewn diwyg newydd Huw Williams	50
'Caneuon ffarwél' Penny Robinson	54
Frances Môn Jones (1919–2000) Rhidian Griffiths	68

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.
Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.

Golygyddion: Rhidian Griffiths, Rhiannon Ifans

Argraffu: Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £6.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £8.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £2.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 2HX
 (01970) 610160

Llun y clawr: Datgeiniad Penpastwn (Moses Griffith, 1747–1819)
trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

HIWMOR YN Y BALEDI

Tegwyn Jones

(Rhan o sgwrs a roddwyd yn y Cwrs Penwythnos yng Ngwersyll Glanllyn, Y Bala, Medi 2000. Sonnir yma am faledi'r ddeunawfed ganrif yn unig.)

Ymhlith baledi'r ddeunawfed ganrif y mae corff bychan o rai a luniwyd yn arbennig gyda'r *bwriad* o greu chwerthin a hwyl yn y gynulleidfa o gwmpas y canwr yn y farchnad a'r ffair ac ar y stryd. Ychydig ydynt ar gyfartaledd. Meddai J. H. Davies yn ei ragymadrodd i'w Lyfryddiaeth o faledi'r ganrif honno: 'a few relate comic adventures...The majority of the ballads, however, are of a distinctly religious type, in the nature of warnings against sin and songs composed for special religious festivals'. 'Crefyddol oedd tinc tuag wyth gerdd o bob deg', meddai Thomas Parry eto yn y gyfrol *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*. Ychwaneger at hyn y toreth baledi am ddigwyddiadau trist fel llofruddiaethau, llongddrylliadau, rhyfeloedd, caledi'r dyddiau, a phrinder a drudaniaeth bwyd, efallai nad yw'n rhyfedd mai yn y lleiafrif y mae'r baledi bwriadol ysgafn. Ond y maent yn bod, oherwydd roedd gan gwmniaeth y llofft stabal ambell geiniog i'w gwario yn y ffair, ac os oedd modd i'r baledwr ddenu honno i'w boced ei hun, ni fyddai'n brin o geisio gwneud hynny.

Beth fyddai cynnwys baledi o'r fath? Beth, mewn geiriau eraill – ym marn y baledwr – fyddai'n gogleis ei gynulleidfa? I droi at J. H. Davies unwaith eto, ei ddisgrifiad cyffredinol ef o'r baledi arbennig hyn yw 'amusing incidents of the countryside', ac fel enghraifft o hynny mae'n rhoi crynodeb o faled rhif 399 yn ei Lyfryddiaeth, sef hanes tad a oedd yn bygwth saethu cariad ei ferch petai hwnnw mor annoeth â dod i edrych amdani. Ond rhyw noson dywyll fe glywodd y tad sŵn y tu allan i'r tŷ ac fe dybiai ei fod yn gweld rhyw rith yn symud o gwmpas yn y tywyllwch. Dyma nôl y gwn a saethu i gyfeiriad y tresmaswr. Yr ergyd yn deffro pawb yn y tŷ ac un o'r gweision yn mynd allan i'r ffald, ac

yno'n darganfod fod ei feistr wedi saethu, nid cariad ei ferch, ond eidion ei gymydog. Rhaid bod y cariad yn ŵr go gorffol, neu bod y noson yn un anarferol o dywyll. I droi at y faled ei hun, dyma ychydig o'i blas. Roedd y tad, meddai'r baledwr, yn:

Cynghori'r ferch bob diwrnod
A rhoi iddi ymbell gernod,
Gan ddweud iddi y Byd a gae
Os ato yr âi yn briod.

Wele'r gwas, yn y pennill nesaf, yn mynd allan i weld beth oedd effaith ergyd ei feistr:

Fe neidie'r gŵr tua'r lladdfa
I ymofyn am yr helfa,
Yr oedd [yr] eidion yn ei waed,
A'i ochor draed yn ucha.

Llinell ddigri iawn yw'r olaf. Daw'r cymydog, perchennog yr eidion, draw yn nes ymlaen ac yn naturiol fe â'n ffrae fawr yno. Y ferch ieuanc, wedi iddi ddeall beth a ddigwyddodd, yn glana chwerthin:

Pan glybu'r ferch hwy'n siarad
Hi drawa grechwan anfad,
Nid ydi hynny ond mater bach
Os ydiw yn iach fy nghariad.

Mae hyn yn gwylltio'i thad yn ofnadwy, ac mae'n ei diarddel yn y man a'r lle:

Fe ddwede ei thad afrowiog,
Yr andras fo i'r willog, (gwilog = hoeden, merch benchwiban)
O dos i'r fan a fynych di
Ni chei di genni geiniog.

A hithau wedyn yn ei bryfocio:

Hi a'i atebe fe'n galonnog,
Mae gennych drâd nodidog,
Fy nghernodio hyd yr ha
A saethu da'ch cymydog.

Nid oes enw awdur wrth y faled, ac mae'n amhosib dweud ai cofnod sydd yma am ddigwyddiad go iawn, gan nad oes nac enw lle na pherson ynddi chwaith. Ond fel y gwelir, hiwmor syml, arwynebol, ychydig yn arw, ychydig yn amrwd, ond yn nodweddiadol iawn o hiwmor y baledi.

Ac y mae'r thema yma o ladd anifail mewn camgymeriad yn un bur gyffredin ym maledi bwriadol ddigri'r ddeunawfed ganrif, sy'n awgrymu ei fod yn dderbyniol ac yn debyg o werthu baledi. Mae gan Jonathan Hughes, Llangollen, faled sy'n sôn yn gellweirus iawn am helwyr a chŵn o blwy Rhiwabon yn mynd gyda'r nos i hela'r pry llwyd (mochyn daear), ac yn lladd dafad ddu, eiddo clochydd Llangollen, mewn camgymeriad:

Ni fedrent mor dirnad wrth lewych y lleuad
Rhng brefiad hen ddafad a llefiad pry llwyd.

Ac mae yna gyngor i'r helwyr fynd â chŵn ychydig mwy deallus i'w canlyn y tro nesaf.

Hugh Hughes, y Bardd Coch o Fôn wedyn, yn canu baled am 'Hanes y ffowliwr trwstan, yr hwn a saethodd oen ei gymydog yn lle dyfrgi':

Rhown gyngor fy hunan i bob ffowliwr trwstan
Cyn gollwng mwg allan na'r tân ar y tir,
Am wybod rhagoriaeth rhwng dyfrgi ac oen llywaeth
Rhag digwydd fod eilwaith gamsyniaeth drwy'r sir.
Ni chlywais i fod dyfrgi erioed
A gwlân a chyrn mewn glyn a choed,
Na fforchog ewin ar ei droed.

Gellir ychwanegu eraill ar yr un thema, fel er enghraifft, y 'Mawr drwstaneiddwch yn Llaneurgain, Sir y Fflint ... i wr ladd hwch ei gymydog ... liw nos, yn lle ei fochyn ei hun'. Y mochyn wedi dianc o'i dwlc yn ôl yr hanes, a'r hwch rywsut neu'i gilydd wedi ymlwybro tuag yno, a chymryd ei le. Pam mai liw nos y lleddid moch yn Llaneurgain, nid oes esboniad, ond felly y bu, a'r gwas bach oedd y cyntaf i sylweddoli fod rhywbeth o'i le:

Dyweda'r hogyn cyn pen awr, Ai llaeth sydd gan y mochyn mawr?

Mae'i dethau a'i bwrs o'n llusgo'r llawr, yn wrthiau gawr nerthol ...

Ac fe â'r stori rhagddi. Dônt o hyd i'r mochyn, a throsglwyddir ef i'r cymydog colledus, tra mae'n rhaid i'r ffarmwr wneud y gorau gall â charcas yr hwch. 'Amusing incidents of the countryside'!

Ond ar wahân i'r lladd anfwriadol hwn, y mae i anifeiliaid – ac yn arbennig y mochyn efallai – le go amlwg yn y baledi bwriadol ysgafn. Mae J. H. Davies yn ei ragymadrodd i'w Lyfryddiaeth yn rhoi crynodeb o faled am wraig i grydd o Goetmor, Llanllechid. Gwraig ddrwg oedd y wraig, yn yfed a chwarae cardiau, er gwaethaf cwynion ei gŵr, a'r ddau rhyw noson yn y gwely, yn gweld rhith gwyn yn symud o gwmpas yr ystafell wely. Y gŵr yn dweud wrth ei wraig mai ei buchedd bechadurus hi a ddenodd y 'peth' yma i'w bwthyn, a hithau, yn ei hofn mawr a'i dychryn, yn mynd ati i gyffesu ei holl bechodau – llawer ohonynt yn newydd i'w gŵr – ond y tu allan i'r ffenest, heb yn wybod iddynt, roedd llanc o'r pentre'n llercian, ac yn clywed y cyfan. Bore trannoeth yng ngolau dydd, dyma weld mai mochyn gwyn oedd yr ysbryd, wedi crwydro i mewn i'r tŷ yn ystod y dydd, ac wedi mynd i gysgu o dan y gwely. Ond yn rhy hwyr – diolch i'r llanc o dan y ffenest yr oedd y sôn am bechodau lliwgar y wraig eisoes wedi lledu drwy'r ardal fel tân gwyllt.

Mae gan Ellis y Cowper faled sy'n dwyn y teitl 'Fel y buwyd yn chwilio am fochyn ag ynta yn y cwpwrdd gartref'. Eiddo oedd hwn i ryw Richard fab Wiliam – nid oes enw lle – a cheir disgrifiad hir ohono ef a'i wraig yn chwilio'r ardal am y mochyn coll:

Fe ddweda'i gwyn wrth bawb yn syn,

A than fanwl chwilio yn nhin pob bryn

Oedd dim o ôl y mochyn gwyn, gyw terwyn, yn tirio.

A hithau'n dechrau nosi, doedd dim amdani ond rhoi'r gorau i chwilio:

Pan ffaelian a'i gaffel a'r haul yn o isel

Nhw gyd roddan ffarwel, iach gaffel dwrch llwyd,

Nhw ymlusgan tuag adre yn hidil i dagre,

A gweigion ei bolie er cyn bore heb ddim bwyd,

Ar ôl gorffwyso a ffrolio'n ffraeth
I'r cwpwrdd yr aen-nhw yn union saeth
A'u bryd yn llwyr cael bara llaeth,
Oer alaeth ar wylo,
Pwy oedd yno a'i gest yn den
Ond annwyl fab yr hen hwch wen,
A'r pot a'r menyn ar ei ben yn llawen, yn llywio.

Mae'r adwaith i'r darganfyddiad hwn yn un disgwyledig:

Rhoe'r wraig un waedd arwa, Hys fochyn dos odd'ma
Gwaeth gen i yr holl fara ddifwriodd y rhol,
Ow fy annwyl gosyn a'r ddesgil a'r pwding
A'm deugain pwys menyn ae'n felyn i'w fol ...
Och pwy galon na chyffro, ymhle mae'r cig oedd yn y noe
A rois i halltu bore ddoe? Fo â'm gwnaeth i yn sioe bellach.

Mewn geiriau eraill byddai'r wraig yn destun sbort drwy'r gymdogaeth
ar ôl hyn, a'r un oedd pryder y gŵr:

Bydd cwilydd hefyd, myn fy ffydd,
Am chwilio amdano nos a dydd
Ac yntau yma yn rhodio'n rhydd, annedwydd yn nadu.

Ond nid hanesion am foch yn unig a fyddai'n difyrru'r dyrfa yn y ffair.
Mae mwy nag un copi wedi goroesi o faled John Thomas, Bodedern, am
yr Ysgyfarnog Farus a ymosodai'n feunosol ar ei ardd lysiau:

Mae rhyw sgyfarnog donnog dynn
Yn pori 'ngardd, nid hardd yw hyn,
Ni adawodd hi imi, gwir di-syn
Lysieuyn glas yno,
Tynnu 'ngharaits hyn sydd fawr,
A'm holl lysiau yn llwyr o'r llawr,
Gwae fi na welwn yma yn awr,
Bla engfawr, ei blingo.

Yn ychwanegol at y ‘garaits’, mae’n rhestru’n ddiddorol mewn pennill arall y gwahanol lysiau oedd ganddo yn ei ardd cyn i’r ysgyfarnog ddechrau ymweld â hi, ac yna geilw ar eu ffrindiau i ddod i’w gynorthwyo i’w dal:

Gobeithio cyn tridydd
Y gwelai’r ddigwilydd
A’i garai drwy’i gilydd
Yn llonydd uwch llawr,
Yngrhog ar ryw gambren
A’i dau droed i’r wybren,
Oer gilwg yn gelen, y felen dew fawr.

Ac yna byddai dathlu:

Ni luniwn wledd mewn hedd o hyd
Am ei bwrw i ffwrdd o’r byd,
Bîr a bragod yn ei bryd
Mewn gwynfyd dan ganu.

Nifer o’r baledi bwriadol ysgafn hyn felly, fel y gwelir, yn cofnodi rhyw droeon trwstan yn ymwneud ag anifeiliaid, sy’n adlewyrchu’r gymdeithas wledig amaethyddol y perthynai’r baledwr a’i gynulleidfa iddi. Ond a gadael difyrwrch sy’n ymwneud ag anifeiliaid am y tro, mae corff bach o faledi’r ddeunawfed ganrif, fel y gwyddys, yn ymwneud â’r ffasiwn newydd o yfed te – mae hyn a llawer o bethau difyr eraill, wedi eu cofnodi yn llyfr E. G. Millward ‘*Gym’rwch chi baned?*’ – a cheir mwy nag un faled sy’n ddadl rhwng Morgan Rondol, fel y personolir te gan y baledwyr, a Syr John yr Haidd neu Heidden, sef cwrw, a’r olaf – yr hen frodor Cymreig – yn ddieithriad bron yn ennill y dydd ar y newydd-ddyfodiad o’r India. Ond yn bennaf, mae’r hwyl yn codi yn y baledi arbennig hyn o arfer honedig y merched o ymgasglu i yfed te, darllen eu tesni yn y dail, ac weithiau ychwanegu rhywbeth cryfach ato, yn enwedig brandi.

Ni bu yr hen bobl erioed yn yfed brandi

meddai Jac Glan-y-gors yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ei gerdd 'Bess yn Teyrnasu', ond nid dyna yw tystiolaeth rhai o'r baledi sy'n ymwneud ag yfed te o leiaf. Roedd brandi fel petai wrth law yn ddigon cyfleus, ac y mae disgrifiadau amrwd a bras weithiau o gyflwr rhai o'r gwragedd hyn wrth i'w gwŷr geisio'u hymgeleddu a'u rhoi yn y gwely i sobri.

Os oedd te a brandi yn hawdd eu cael, nid felly tobacco, a gwelodd mwy nag un baledwr gyfle i godi hwyl ar gorn hynny. Y rhyfel rhwng Lloegr Hen a Lloegr Newydd, chwedl un baledwr, Rhyfel Annibyniaeth America, oedd i gyfrif am y prinder:

Clowch alar pob Tobacwr

meddai Ellis Roberts,

O waith cynnwyr' Merica
Wrth drin y rhyfel milen hwy sathren ddeilen dda ...
Ow'r hen Dobaco bach a wnâi gynt galon iach
Ar ôl ei fwynder hyd yr amser
Fe gria lawer gwrach ...

Ambell hen wreigan yn mwynhau'i chetyn:

Ow'r cetyn melyn mwyn
Oedd gynt yn twymo'i thrwyn,
Yn iach bibelled – mae rhyw wyllied
O ddiawled wedi ei ddwyn ...

Ac mae rhyw John Edwart wedi canu ar yr un pwnc:

Pob carl ewinog enwog iach
Sy'n caru'r cetyn melyn bach,
Brysiwch chwithau pob hen wrach i ganu'n iach i smoco,
Ni welir mwy mo'r ddeilen ddu,
A hyn fu fraw mewn llawer ty,
Nid oes yr awron ond lle bu'r – Tobacco.

Mae'n cyfeirio at y pannwr a'r gwŷdd a'r teiliwr ac yn y blaen yn hiraethu am faco:

Pawb o'r rhain sydd ddigon prudd
Gan ddweud yn ddwys, 'Ni welsom ddydd
Y cowed joi gan Job y Crydd, a hyn mor rhydd a'i gofio,
Fe ddarfu am hynny, dyna'r drwg,
O achos rhyfel, llid a gwg,
A dyna'r pam y pallodd mwg – Tobacco'.
Wel heddwch, heddwch, cyn bo hir,
I gael llenwi siopau'r sir,
Pa fodd gall hwsmon drin ei dir na hau mo'i lafur yntho?
Heb gael bodlondeb undeb iawn,
Pob peth yn gryno er llwyddo'n iawn,
Hai how, hai how, On'd mawr na chawn – Dobaco?

Soniwyd yn barod, yng nghyd-destun y baledi, am ladd anifeiliaid yn anfwriadol, am droeon trwstan, ond cofnodir troeon cyffelyb eraill ym maledi'r cyfnod heb fod anifail o angenrheidrwydd yn rhan o'r stori. Byddai'n wir dweud mai troeon trwstan efallai yw prif thema'r math o faledi y sonnir amdanynt yma, hyn eto mae'n siŵr yn adlewyrchu'r gymdeithas glôs, blwyfol, cymharol brin ei hadloniant y byddai rhyw ffolineb anfwriadol gan aelod o'r gymdeithas honno ei hun yn destun difyrwrch i'w gyfeillion a'i gydnabod yn yr un plwy, ac mewn plwyfi cyfagos. Byddai'n werth, efallai, cyfeirio at un neu ddau o'r digwyddiadau yma.

Mae rhyw R. R. o Lanynys yn cofnodi digwyddiad – ac yn cael cryn hwyl wrth wneud hynny – a fu yn Rhuddlan, pan gyffrowyd trigolion y dref honno rhyw fore o weld rhyw anghenfil – llamhidydd mawr, fel y tybient hwy – yn hwylio heibio'r dref ar yr afon – Afon Clwyd:

Ac yno rhedodd Gwyr y Drê, i geisio'i ladd pe cawsen' lê,
Nid oedd un Gwr heb efo 'gê, rhyw bastwn nê bystol,
Ac ynte'n rhowlio gida'r don,
dan rwyfo a'i lyw'n yr Afon lon,
Yn ail i'r Afanc Grafanc gron, o foddion rhyfeddol.

Roedd gwreng a bôn i'w canfod yn y dyrfa a gyrchodd yr afon y bore hwnnw:

Fo rede'r Bon'ddigion, dan ledio'r Tylodion,
I lawr at yr Afon, on'd gwirion y gwaith?
A phawb a'i Fwsged ar ei Gefn
Yn mynd o ddeutu'r Afon ddefn.

Daeth rhywun â sbienddrych o rywle, a mawr fu'r defnyddio ar hwnnw:

A rhai oedd yn edrych, drwy ganol Sbiendrych,
Dwysglaerwyn disgleirwych, yn fynych ei faint,
Gan ddwedyd yn ebrwydd, 'Mi a'i gwela'n gyfarwydd,
O'i fôn hyd ei fennydd, a deunydd pob daint ...'

Yr oedd yr anghenfil i'w weld mor fanwl â hynny, wrth gwrs, a gwelid cyfle ardderchog i gael cig a chroen ac olew pe gellid ei ddal a'i lanio. Ond yna – y dadrithiad a'r siom:

A chwedi'r holl ffwndwr, awch union, a chynnwr,
Nid oedd wedi'r dwndwr ar gefnddwr i'w gael
Ond baich o Ddrain geirwon, yn lle Llamdyddion,
I'r ffowliwrs lled ffolion, wyr meinion ei mael,
Ac yno rên i'r Dre'n 'u hôl, dan regi'r drain yn ddrwg i rhôl,
Fel haid o heliwrs ffowliwrs ffôl, rhagorol o'r gwirion,
On'd gwell i'r Gwyr rhag colli co'
Nad elon' fyth er dim a fo
I hindro Drain i fynd ar dro, ne nofio mewn Afon?

Diau y byddai cryn ddifyrrwch yn yr ardaloedd o gwmpas Rhuddlan – er nad yn Rhuddlan ei hun efallai – o glywed datgan y gerdd hon.

Ymhlith baledi'r ddeunawfed ganrif yn enwedig, mae nifer sy'n cyfeirio at y milisia, sef y corffluedd sirol rhanamser hynny o filwyr, a fyddai'n derbyn mis o hyfforddiant bob blwyddyn, ac y byddai galw am eu gwasanaeth i gynorthwyo'r fyddin reolaidd pe digwyddai rhyw argyfwng yn y wlad neu dramor. Gan amlaf mewn geiriau canmoliaethus dros ben y bydd y baledwyr yn cyfarch y milisia – 'Cân o glod i Filisia Sir Fôn', 'Cerdd o fawl i Filisia Sir Aberteifi, ynghyd a'r Officers, gan roddi

iddynt glod fel y maent yn ei haeddu', 'Cerdd ... o glod i'r Milisia Cymru sy yn Ddychryn i'w gelynyion', ac yn y blaen. Ond pan ddigwyddodd tro trwstan i chwe aelod o filisia sir Ddinbych, fe'i cofnodwyd yn llawen a heb betruso dim gan Ellis Roberts. Wedi bod am fis o hyfforddiant yn Ninbych yr oedd y milwyr, ac ar eu ffordd adref:

Wrth gerdded yn galed daeth syched di-swyn,
Nhwy ddoe i Lansannan, wyr cyfan, mewn cwyn,
Gwnaen yno gyfarfod ar *lan fedd-dod mwyn*.

Yfed yno a mynd braidd yn afreolus:

A'r bobol yn diengyd mewn credid rhag cri,
Wrth glywed eu damio a ffrolio mor ffri.

Ond yn ymadael ymhen tipyn gan ymfrostio'n uchel yn eu dewrder milwrol wrth fynd:

Gan ddweud yr ymladden, na ysbarien mo Sbaen,
A'r Ffrancod a ddiengen lle bloeddien' o'u blaen.

Nes cyrraedd lle o'r enw Pont yr Ellyllydy, enw sy'n awgrymu efallai fod rhyw hanes am ysbryd ynglŷn â'r lle, a bod y milwyr o bosib yn gwybod hynny. Yno un ohonynt yn gweld yr hyn a dybiai ef oedd yn gorff marw mewn amdo. Beth wnaeth y milwyr dewr wedyn?

Yna prysuren a rheden yn rhes
Mewn chwys at Langernyw yn groyw dân gwrês,
Dan edrych o'u hole drwy loese di-les.
Y chwech oedd yn synnu, yn crynu drwy'u crwyn,
Nes caffael ty arnyn, bu gyfyng eu cwyn,
Mawr iawn oedd eu trallod ar *lan fedd-dod mwyn*.

Ac yna fe ddatgelir gan y baledwr mai 'siwmpig' ('cot fer, siaced') a welsai'r milwyr:

Yr hon wedi'i gosod yn gyson fel dyn
I nadal y defed i gerdded mewn gwyn.

Hynny yw, rhyw fath o 'fwgan defaid' wedi'i osod yno gan ffermwr. Ac mae Ellis Roberts yn gorffen ei gerdd trwy honni – os oedd siaced wag yn gallu codi'r fath ofn ar y milwyr dewr hyn, yna:

Bydase ddyn ynddi, myn difri yno ar dir,
Rhedasen gryn filltir yn sicir o'r sir.

Yn naturiol ni chyll y baledwr ei gyfle i gofnodi ambell dro trwstan sy'n digwydd ym myd carwriaeth. Mae rhyw H.O. o Lanllyfni yn canu am 'Hanes Gwr ifanc a gollodd ei glos wrth garu merch o Lanrwst oedd yn Nhreffynnon'. Dim enwau, ond efallai fod hynny – merch o Lanrwst yn Nhreffynnon – yn ddigon o glwi i'r cyfarwydd ar y pryd:

Roedd Gwyddel o Iwerddon o ddeutu tre ffynnon
A nesodd rhiw noson yn dirion ei daith
At lodes lân heini a'i fryd yn ddioedi
Ar ddofi neu dorri Natturiaeth.

Ond a'r ddau ym mreichiau'i gilydd, fe ddaeth llanc gobeithiol arall o rywle, ac wrth deimlo'i ffordd at ystafell y ferch, fel Dafydd ap Gwilym yn y cywydd hwnnw, rhoddodd ei law ar glos, oedd wedi ei osod ar gefn cadair yno:

A'r dyn pan ei teimlodd ei galon a giliodd,
Brawychodd a dychrynodd dechreunos.

Ac i ffwrdd ag ef, ond yn ei siom, ac er mwyn dial ar y Gwyddel, fe aeth â'r clos i'w ganlyn. Y Gwyddel druan yn ddiweddarach yn chwilio'n ofer amdano:

Pan gododd y Llengcyn o barlwr cwm deulin
i chwilio am ei glosyn mewn dychryn a dig
Fe gafodd fynd adre, carlopiwr carlpe,
Yn dinoeth y bore trwy'r barrug.

Ac yna mae gair o gyngor yn dilyn:

Y llanciau diofal, dyna i chwi siampal
Rhag cwympe i'r un fagal ar drafal yn dre,
Os ewch i tin desach meddyliwch pawb bellach
Am gadw yn daclusach eich closau.

Enghraifft arall yn yr un maes – a'r clos yn chware rhan allweddol unwaith yn rhagor. Yr hen Gowper unwaith eto yw'r awdur, yn canu'r tro yma i'r testun 'Hanes gwr yn dyfod adre ryw noswaith pan oedd un

arall gyda'i wraig o'n gwely, fel y cymerth hi arni fod Colic yn ei blino,
a'i gwr, wedi tynnu ei glos, fel y digwyddodd iddo gymeryd clos y llall i
fynd i geisio ffisig iddi'. Caiff ei annog i fynd ar unwaith gan y wraig,
sydd ar farw gan y poen, meddai hi, ac i ffwrdd ag ef, heb wybod dim
am yr ymwelydd yn ei wely:

I nôl ffisig iddi yn gwic
I gael o'r Colic gilio,
Pan aeth o i'r drws allan fo redodd yn fuan
Mewn gofal yn gyfan rhag marw ei fwyn wreigan
Yn druan dan geulan oer galar,
R ôl rhedeg a thuthio ymhell dan amhwyllo
Fe glowe'r gwr cryno i glos yn cau glosio,
Yn llithro tan dduo tua'r ddaear.

Dyfelir mai ystyr hynny yw fod y clos yn rhy fawr iddo, a'i fod yn ei
deimlo'n araf ddisgyn wrth iddo redeg. Wrth ei godi, dyma ddarganfod
wats ddrud yn un o'r pcedi:

Ac yno y gwybu toc ar goedd
Mai celwydd oedd y colic,
Ac yno ail chwiliu y cadarn bocede,
C'add arian i'w ddyrne, ac Aur fel gwr gore.

Ac yn lle mynd i chwilio am ffisig i'w wraig, â i'r dafarn agosaf, a
dechrau gwario'r pres yn ffri:

Y gwr a fodlone iawn fuddiol pan feddwe
R ôl cael y *watch* ore a'r lllwnion bocede ...
Y carwr mwyn heini a gafodd ei gosbi,
A lechodd yn wisgi rhag nôl ei glos gwedi,
Gwell ganddo fo dewi na dwad.

Ac unwaith eto, ar y diwedd, gair o gyngor:

Os eiff gwr serchog at wraig ei gymydog
Cymered glos clytiog a dwy boced dyllog
Rhag digwydd yn rowiog ei dynnu.

Mae baled arall am y digwyddiad yna sy'n perthyn i'r ganrif ddilynol, wedi ei hysgrifennu ar fesur symlach, ac yn honni mai gwerthwr te oedd y gŵr a gafodd y golled, a cholled ariannol yn unig oedd honno, nid oes sôn am wats.

Ac wrth sôn am glosau, ceir baled arall eto fyth gan Elis y Cowper, am dro trwstan yn ymwneud â chlos. Hanes morwyn sydd yn hon –'ladi o wlad Eifionydd' – a oedd yn gobeithio'n dawel fach y ddi'n wraig ymhen y rhawg i'w meistr gweddw a chefnog. Ond drylliwyd ei gobeithion gan ei diofalwch hi ei hun pan roddodd glos newydd ei meistr ryw noson, 'ar geg y fuddai', gan fwriadu ei olchi drannoeth. Yn ystod y nos, llithrodd y clos ohono'i hun i mewn i'r fuddai, a phan aeth hithau ati'n blygeiniol drannoeth i gorddi, ni chofiai ddim amdano. Arllwysodd ddŵr a llaeth i'r fuddai a dechrau corddi:

I gael Emenyn ir gwr mwynedd
O ffrwyth ei borfa lond ei berfedd.

Wedi gorffen, a cholli llawer o chwys wrth droi'r fuddai, codi'r ymenyn i noe:

Ag yno fe stoppia dros dipyn
Rhoi'r Fudde ar lawr a rhythu llyged,
ag yno yn waeledd hi gae weled,
yn nofio fel gleisiad rhyw glosyn.

Roedd aur, arian a chwecheiniogau ar waelod y fuddai, a'r clos 'yn gregin mân':

Y Clos newydd wrth hir nofio
Oedd is balog wedi ysbwylio,
'Rol bod yn hir rainio yn yr enwyn.

'Ei meistr', meddai'r Cowper,

sydd yn ddig gythreulig
Am iddi sbwylio ei Glos bonheddig.

Cip digon brysiog ac anghyflawn a welir uchod ar rai o faledi'r ddeunawfed ganrif a luniwyd, mae'n ymddangos i mi, yn fwriadol ac yn unig, er mwyn codi hwyl. Fel yr awgrymwyd eisoes, hiwmor syml,

arwynebol, digon diddyfais a welir yn y cerddi hyn, amrwd weiriau – rhyw hiwmor slapstig – wedi ei anelu at werin, chwedl R. T. Jenkins yn *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*, ‘gwerin a’i gofid a’i llawenydd yn agos iawn i’r wyneb’. Does dim ymgais i godi golygon uwchlaw’r lleol i chwilio am ddeunydd digri nac i ddefnyddio hiwmor yn bigog at bwrpas dychanu cymdeithas yn gyffredinol, fel y gwnaed cyn diwedd y ganrif gan Jac Glan-y-gors. Nid hiwmor i ddod â’r to i lawr heddiw efallai, ond yr hyn sy’n rhaid cadw mewn cof yn gyson – ar wahân i’r ffaith fod ffasiwn yn newid mewn hiwmor fel mewn popeth arall – yw’r ffaith mai cerddi i’w *canu* y bwriadwyd y rhain i fod, i’w perfformio’n wir. Mae gennym ddigon o ddisgrifiadau gan lygad-dystion am ddulliau perfformiadol rhai o faledwyr mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg – Ywain Meirion, Dic Dywyll, Abel Jones ac eraill – pan fyddent hwy wrthi’n canu a gwerthu eu cerddi, a does dim lle i gredu bod eu rhagflaenwyr yn y ddeunawfed ganrif yn wahanol. Nid ar y geiriau’n unig y dibynnai llwyddiant yr hiwmor.

ELIZABETH DAVIES: ‘BALLAD SINGER’

Maredudd ap Huw

Fel y gŵyr y cyfarwydd, ychydig sy'n wybyddus am gefndir y merched hynny a fyddai'n cyfansoddi ac yn canu baledi yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif. Rhestrir enwau prydyddion megis Florence Jones, Susan Jones, Lowri Parry, Grace Roberts, Cetturah Thomas a Rebecca Williams yn llyfryddiaeth J. H. Davies, ond yn achos Lowri Parry yn unig y ceir awgrym ei bod hi'n gwerthu, onid hefyd yn canu, baled a argraffwyd ar ei rhan.¹ Yn wyneb prinder tystiolaeth, rhaid chwilio tardellau annisgwyl weithiau cyn dod o hyd i lygedyn o oleuni ar hanes y datgeiniaid benywaidd hyn.

Wrth bori ymysg cyfoeth Llŷs y Sesiwn Fawr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar, deuthum ar draws dogfennau dadlennol yn ymwneud ag erlyniad gerbron Sesiwn Gwanwyn Cylchdaith Caerfyrddin ar yr ail o Ebrill, 1798. Enw'r cyhuddedig oedd Elizabeth Davies, merch ieuanc ddibriad ddwy ar bymtheg oed y daethpwyd â hi gerbron ei gwell am ddwyn o gartref y weddw Sinah Evans ym mhlwyf Pencarreg, Sir Gaerfyrddin ddilladau gwerth £1 10s. 8d. ar yr ugeinfed o Dachwedd, 1797.²

Byddai'n ddiddorol gwybod ai gerwinder y gaeaf ynteu ddeisyfiad am elw a oedd yn gefndir i drosedd o'r fath, ond cawn lygedyn o oleuni pellach ar amgylchiadau'r cyhuddedig yn natganiad yr erlynwraig Sinah Evans gerbron yr ustus lleol wythnos wedi'r digwyddiad:

that she has often seen Elizabeth Davies of Machynlleth in the County of Montgomery sp[inster] within these last two years that she has been accustomed to travel this countrey during that time singing of ballads.³

Tystia Sinah Evans ymhellach iddi ddod wyneb-yn-wyneb ag Elizabeth Davies yn nhref Llanymddyfri ar y seithfed ar hugain o Dachwedd, ac iddi ddarganfod rhai o'i dilladau ym meddiant y faledwraig bryd hynny. Oherwydd cryfder y dystiolaeth, neu gryn fesur o ragfarn gymdeithasol

yn erbyn y grwydrwraig ieuanc, cafwyd Elizabeth Davies yn euog o'r cyhuddiad, a'i dedfrydu i ddwy flynedd neilltuedig (*solitary confinement*) yng Ngharchar Caerfyrddin⁴, a cheir ei henw ar restr y carcharorion yno yn 1799⁵.

Trwy gyfrwng ffeithiau moel yr achos trist hwn, casglwn fod modd i ferched grwydro ymhell o'u plwyfi genedigol i ganu baledi pan oeddynt yn ieuanc iawn, gan ddilyn y ffeiriau yn ôl pob tebyg. Yr oedd rhyddid iddynt wneuthur hynny cyn priodi, fel ag yn achos Mary Davies ym mhlwyf Llanybydder yn 1861, cymeriad sy'n cael ei disgrifio yn y Cyfrifiad fel *balat singer* hanner cant a saith mlwydd oed a drigai ar ei phen ei hun mewn tyddyn o'r enw *Graigina*⁶. Ond tybed a fyddai gwragedd priod wedi mwynhau'r un rhyddid yn yr un cyfnod?

Yn olaf, hoffwn ddychwelyd at Elizabeth Davies, gan ofyn tybed ai'r ferch a garcharwyd yng Nghaerfyrddin yn 1798 a fu'n gyfrifol am lunio un o ddwy faled a argraffwyd yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef *Dwy gan: I. Cymhorth i hunan-adnabyddiaeth*. II. *Golwg at sefyllfa Cristianogrwydd, o amser Crist hyd yn bresennol, gan Elizabeth Davies, Cellan* (arg. gan Samuel Williams yn Aberystwyth yn 1813), a *Can newydd, sef gwirioneddol hanes am Margaret Williams, yr hon a gafodd ei lladd gerllaw i Gastell-nedd, Gorphenaf 14, 1822* (arg. gan J. Jones yn Nhrefriw)?

Cyfeirir at Elizabeth Davies, awdur yr olaf o'r baledi a enwyd, fel un o drigolion Elusendy Water Street, Castell-nedd tua 1856⁷, ac fel awdur nifer o faledi Saesneg yn ogystal ag o leiaf un faled Gymraeg arall y byddai ei theitl yn gweddu i'r dim fel *cri de coeur* ar ran un a dreuliodd oes galed yn crwydro ffeiriau Cymru – *Cân newydd yn dangos fod Duw yn aml yn gymorth i bererinion tlodion ac yn waredigaeth iddynt tra mae mawrion y byd yn fynych ar eu meirch ac yn eu cerbydau yn ffael cyrraedd pen eu taith!*⁸

NODIADAU

- 1 J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (London, 1908–11), rhif 479.
- 2 Ffeiliau Carchar Llys y Sesiwn Fawr, *Wales* 4/752/1, rhif 6.
- 3 Ibid., rhif 63.
- 4 Llyfr Gorchmynion a Chofnodion y Llys, *Wales* 14/56, t.239.
- 5 *Wales* 4/752/4, rhif 82.
- 6 Diolchaf i'm cyfaill D. G. Lloyd Hughes am y cyfeiriad hwn.
- 7 D. R. Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea, 1925), tt. 183 a 567.
Dengys Adysgrifau'r Esgob i Elizabeth Davies, o'r *Union Workhouse*, gael ei chladdu ar y seithfed ar hugain o Ebrill, 1857.
- 8 B. B. Thomas, *Baledi Morgannwg* (Caerdydd, 1951), t. 118. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i gopi gwreiddiol o'r faled hon.

CANU I GYFEILIAN FFDIL YNG NGHYMRU'R DDEUNAWFED GANRIF

Cass Meurig

Llawysgrif ffdilwr o'r enw John Thomas, o ogledd-ddwyrain Cymru yw testun yr astudiaeth hon. Ceir y dyddiad 1752 ar dudalen cyntaf y casgliad ac mae'n cynnwys 526 o eitemau cerddorol, neu ychydig o dan 400 o alawon gwahanol gan fod rhai ohonynt yn cael eu hailadrodd. Mae'n un o'r casgliadau mawr cynharaf o alawon poblogaidd yng Nghymru sydd wedi ei ysgrifennu gan mwyaf mewn nodiant modern, ac ymddengys o ystyried natur y cynnwys mai llyfr gwaith ffdilwr proffesiynol ydyw yn hytrach na chasgliad hynafiaethydd.¹ Pwysigrwydd y llawysgrif yw ei bod yn gofnod o *repertoire* poblogaidd ffdilwr Cymreig ar adeg ddiddorol yn hanes cerddoriaeth Cymru – adeg pan ildiodd y crwth a'r hen delyn unrhes eu lle i'r ffdil a'r delyn deires newydd Eidalaid, a disodlwyd yr hen alawon offerynnol Cymreig bron yn gyfan gwbl gan ddawnsiau a thonau baledi newydd o Loegr. Ceir cipolwg ar fywyd ffdilwr yn y ddeunawfed ganrif, o weld amrywiaeth yr alawon yr oedd eu hangen ar gyfer gwahanol achlysuron. Cynhwysa'r llawysgrif alawon sydd wedi eu copïo o gyfrolau dawnsio gwerin Seisnig a darnau gan gyfansoddwyr enwog y traddodiad Ewropeaidd megis Handel, yn ogystal ag alawon dawnsio a chaneuon sydd wedi eu nodi o'r traddodiad llafar; rhyw chwarter yn unig o'r alawon sydd, mae'n debyg, o dras Gymreig. Y caneuon a gaiff y sylw pennaf yn yr astudiaeth hon. Gwyddys bod geiriau Cymraeg ynghlwm wrth oddeutu 120 o donau'r llawysgrif yn amser John Thomas; baledi oedd y rhan fwyaf ohonynt, ond defnyddiwyd rhai eraill ar gyfer canu penillion. Mae'n annhebygol mai cantor oedd John Thomas gan nad yw'n cofnodi'r un pennill, ond mae'n dra thebygol ei fod wedi cyfeilio i ganu ar ei ffdil. Nod a bwriad y drafodaeth isod yw dangos sut y ffurfiwyd ei *repertoire* gan draddodiadau canu Cymraeg, a sut y gallai ef, fel ffdilwr, fod wedi cyfeilio i ganu baledi yn ogystal ag i ddatganiadau o ganu penillion.

Cyfeiria'r term 'canu baledi' at y 'canu caeth newydd', chwedl yr Athro Thomas Parry, canu a oedd yn boblogaidd iawn yng Ngogledd Cymru yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif.² Baledi stryd a ffair o Loegr adeg y Chwyldro Diwydiannol oedd prif darddiad y canu hwn, mae'n debyg; wrth i'r broses o deithio fynd yn haws, ac wrth i fwy o Gymry fentro i weithio yn Llundain, daeth llawer o'r ceinciau Seisnig yn adnabyddus iawn yng Nghymru; mabwysiadodd rhai ohonynt enwau Cymraeg hyd yn oed, a chanwyd llawer o faledi a charolau newydd Cymreig arnynt. Ystyir y carolau Cristnogol o dan adain y 'baledi' yma, gan mai'r un yw eu ffurf. Cynhwysa 'canu penillion' nid yn unig gerdd dant, ond unrhyw ran o'r traddodiad lle cenir yr un pennill mewn dull amrywiol ar nifer o geinciau offerynnol gwahanol, gan gynnwys, er enghraifft, ganu hen benillion ar alawon megis 'Bing Bong Be' a chanu tribannau. Nid yw'r gân werin, lle mae'r gainc yn gysylltiedig ag un gadwyn o benillion yn unig, wedi ei chynrychioli yn llawysgrif John Thomas, ac o'r herwydd, ni thrafodir hi yma.

Ceir cryn dystiolaeth i awgrymu bod ffidlwyr Cymreig y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cyfeilio i'r mathau hyn o ganu, ac o ganlyniad eu bod yn parhau traddodiad llawer hŷn. Yn ei hastudiaeth o'r crwth, dyfynna Bethan Miles nifer o gyfeiriadau at grythorion Cymreig oedd yn arfer y grefft hon. Mynnai'r crythor, Robert Rheinallt, ganu cywydd, er enghraifft:

Mên a threbl a wnaeth Robert,
Tiwniau pur o'r tannau pert.
Naws rhwydd, er dim nis roddai
Ar sydd, os cywydd nis câi.³

Yn Lloegr, dywedodd Sir Philip Sidney ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg y byddai hen faled 'Percy and Douglas' yn llwyddo i'w gynhyrfu er na chanwyd hi ond 'by some blind crowder, with no rougher voice than rude style'.⁴ Yn ddiweddarach o lawer, ac yn llai dibynadwy, cyfeiria Edward Jones 'Bardd y Brenin' at ddefnyddio crwth i gyfeilio i ganu ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif; wrth sôn am boblogrwydd canu penillion, meddai 'the natives are so enamoured with them as to be

constantly chanting them whenever they meet with a Harp, or a Crwth⁵. Er bod y ddelwedd yn un ramantus ac mai prin iawn oedd y crythorion erbyn hynny, mae'n ddiddorol bod Edward Jones yn ystyried y crwth yn offeryn addas ar gyfer cyfeilio i ganu penillion o'r fath.

Ymddengys fod y ffidil, wrth ddisodli'r crwth yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, wedi cyflawni ei swyddogaeth fel cyfeiliant i gantorion. Ceir ambell gyfeiriad uniongyrchol at ddefnyddio ffidil yng nghyd-destun canu penillion, er mai'r delyn, yn ddi-os, oedd prif offeryn y cyfrwng hwn. Ym 1745 bwriadodd John Parry (Rhiwabon) ac Ifan Wiliam gyhoeddi llyfr i ddilyn eu casgliad cyntaf o alawon Cymreig, sef *Antient British Music*. Paratôdd y ddau sampl – sampl y daeth Osian Ellis o hyd iddi yn llyfrgell y Coleg Cerdd Brenhinol – yn datgan mai:

to render the work more agreeable the Songs in the Antient British will be set to them, also attempted in English verse as the Language will admit of: which will show the Nature of singing with the Harp, *Violin*, &c. at this time by the Welsh at their Musical Meetings.⁶

Ymhlith llythyrau Morrisiad Môn fe welir nifer o gyfeiriadau at y ffidil yng nghyd-destun canu penillion mewn noson lawen. Disgrifia William Morris ambell noson gerddorol pan oedd Mr Ffowc Jones, swyddog yn Nulas, Sir Fôn a'r 'best violin perhaps in Wales',⁷ yn bresennol, gan gynnwys un noson yn Ionawr 1754 pan gafwyd 'telyn ein nith Marged Owen, who plays very pretty and Ffoukyn's violin, the parson, father, myself etc., yn canu gyda'r tannau'.⁸ Awgryma mai'r delyn a'r ffidil fyddai'n cyfeilio i'r canu. Ond yn fwy penodol, yn ystod mis Hydref 1754, sonia Ifan Wiliam am gynnydd ei fab Robin ar y ffidil, a dywed fod yn rhaid i'w ferch Siân ddysgu canu penillion i gerddoriaeth Robin:

Dyma Robin yn dechreu dysgu canu ffidl. He has 'Jenny Jennee' at his fingers ends. Rhaid a dysgu i Siani hithau i ganu gyda eu dannau. Cantores fawr ydyw digon o benhillion Cymreig ganddi.⁹

Ffidlwr oedd Ifan Wiliam hefyd, ac mae'n dra thebygol ei fod yntau wedi

darparu rhywfaint o'r gerddoriaeth ar achlysuron teuluol o'r fath. Dros ganrif yn ddiweddarach, disgrifir canu penillion mewn noson lawen gan 'Glasynys', mewn erthygl ar Nos Galangaeaf yn y gyfrol *Cymru Fu*. Ffidlwr o'r enw 'Rhydderch Grythor' oedd yn bresennol y noson honno,¹⁰ dyma ddetholiad o'r darn perthnasol:

A phawb ar ôl cael rhan o'r ddiod Griafol, neu o'r *Meth*, yn hwylio am fod yn barod i wrando ar Rhydderch yn rhwbio ei grwth. Mynnai f'ewyrth Reinallt mai *canu penillion* oedd y goreu, ac nid oedd neb a feiddiai groesi yr hen fachgen. Felly dechreuwyd o ddifrif hagi arfau. 'Pawb a'i bennill yn ei gwrs,' oedd y drefn, ac nis esgusodid hen nac ieuangc. Dyma ddechreu rhwbio'r tanau ... Chwareuodd 'Serch Hudol' i ddechreu, a tharodd hen wr Blaen y Glyn y pennill cyntaf o 'Forwynion Glan Feirionydd' yn odiaeth dda; dilynwyd ef nes aed dros y gân. Yn y fan hon, newidiwyd y dôn ... Aeth y Crythor yn ei flaen, ac erbyn hyn, yr oedd clic y gweill wedi tewi, a phawb o lwfrlyd calon yn gwylio ei adeg.¹¹

Ymddengys fod ffidlwyr yn y ddeunawfed ganrif yn cyfeilio i ganu baledi'n ogystal. Arfer cyffredin yn ystod perfformiadau o'r anterliwtiau a'r dramâu moesol oedd clywed datganiadau o'r fath.¹² Cynhwysai'r mwyafrif o anterliwtiau wyth neu naw baled wedi eu gosod, gan amlaf, ar geinciau Seisnig, yn ogystal ag alawon dawnsio. Cyfeiria nifer sylweddol ohonynt at ffidlwr fel yr offerynnwr. Meddai'r Ffŵl yn yr anterliwt *Cyfoeth a Thlodi* o waith Twm o'r Nant, gŵr a gysylltai'r ffidlwr â phob math o rialtwech annuwiol:

Tyr'd dithau'r Cerddor, cân yn dyner,
Rwy't tithau'n cymysgu rhwng plaser a balchder,
Nid ai di ddim a'th ffidal wrth dy glun
I'r nefoedd, nac yr un o'th nifer.¹³

Swyddogaeth y ffidlwr oedd cyfeilio i'r dawnsio ac i'r canu fel ei gilydd; er enghraifft, mae'r Cybydd yn yr anterliwt *Cybydd-dod ac Oferedd* o waith Twm o'r Nant yn galw am yr alaw 'Haste to the Wedding', gan ddweud:

Wel tyr'd, y cerddor heini,
Cân 'Haste to the Wedding' ini;
Ni a'i canwn ni'n dau yn araf deg,
Ac a'i dawnsiwn hi'n wiwdeg wedi.¹⁴

Defnyddiwyd y ffidil hefyd i gyfeilio i ganu carolau Nadolig; er enghraifft, cyfeiria un garol a gyhoeddwyd yn *Blodeu-gerdd Cymry* ym 1759 y dylid ei chanu ar yr alaw 'Llafar Haf', a hynny 'Gan dau o Wŷr, a dau o fechgîn, gyda'r Delyn ar Ffidl', a chynhwysa'r pennill cyntaf y llinellau canlynol:

Ar Delyn Ddŷdd Nadolig
Ar Feiol yn fawledig
Gwnawn gywir fesur Fiwsig
I'n diddig Oen, a'n Duw.¹⁵

Ar ddiwedd y ganrif ddilynol, y mae'r Parchedig William Meredith Morris yn rhoi enghreifftiau gafaelgar o'r ffidil yn cyfeilio i faledwyr yn ei hanes rhamantus *Famous Fiddlers*. Er bod yn rhaid ymdrin â'i dystiolaeth yn ofalus, mae ganddo ddisgrifiadau diddorol o ddau gymeriad a oedd yn enwog am ganu baledi a chyfeilio i'w perfformiadau eu hunain ar y ffidil. Y cyntaf ohonynt oedd Ianto'r Garth o Langynwyd (m. 1828), a glywyd yn chwarae ac yn canu mewn ffeiriau lleol, a hefyd yn arwain y galarnadu mewn angladdau.¹⁶ Byddai'r ail gymeriad, Lefi Gibbwn, a anwyd ym mlynnyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghwrmfelin Mynach yn Sir Gaerfyrddin, yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi baledi o'i waith ei hun ac yn ôl y sôn, yn cyfansoddi llawer o'i alawon ei hunan. Dywedir iddo ganu mewn ffeiriau a phriodasau, a chyfeilio i'w berfformiadau ei hun ar y ffidil a chwarae amrywiadau weithiau er mwyn rhoi seibiant i'r llais.¹⁷

Gellir dweud, felly, fod traddodiad maith yng Nghymru o ddefnyddio offerynnau bwa i gyfeilio i ganu. Ymddengys fod y ffidilwr wedi cymryd swyddogaeth y crythor wrth gyfeilio i ganu penillion, ac fel y daeth canu baledi yn boblogaidd yng Nghymru, trosglwyddwyd ei ddawn fel cyfeilydd i'r cyfrwng newydd hwnnw, a chafwyd y ffidil yn offeryn hwylus iawn ar gyfer baledwyr a chwaraewyr anterliwt crwydrol. Mae'n

debygol iawn fod John Thomas y ffidlwyr wedi cyfeilio i ganu baledi gan fod dros gant o'i alawon yn donau baledi. Y mae'n debygol hefyd ei fod wedi dilyn yr anterliwt, gan fod hanner cant o'r alawon sy'n ymddangos yn ei lawysgrif wedi cael eu defnyddio mewn anterliwtiau. Gwyddys bod pedair alaw ar bymtheg arall yn y llawysgrif yn alawon a ddefnyddid yng nghyd-destun canu penillion yn y ddeunawfed ganrif, ac mae'n dra thebygol fod John Thomas wedi cyfeilio i'r math hwnnw o ganu hefyd ar rai achlysuron. Yng ngweddill y papur hwn canolbwyntir ar ddetholiad o alawon baledi ac alawon penillion o lawysgrif John Thomas a gosodir geiriau o'r cyfnod arnynt ac alawon. Y bwriad yw archwilio'r modd yr oedd y ffidil a'r llais yn cydblethu; hynny yw, darganfod sut y ffurfiwyd yr alawon gan y traddodiad canu, a'r dulliau a ddefnyddiai'r ffidil i gyfeilio i'r llais.¹⁷

Baledi

Roedd alawon y baledi yn rhan fawr ac amrywiol iawn o repertoire John Thomas. Ceir oddeutu cant ohonynt yn y llawysgrif, ond dim ond rhyw ddeugain o'r rheini sy'n alawon Cymreig; daw'r rhan fwyaf o'r gweddill o Loegr. Treiddiodd yr alawon Seisnig hyn i Gymru mor gynnar â diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg gydag alawon megis 'Greensleeves' a 'Loath to Depart', dwy o'r alawon a restrir ymhlith y gerddoriaeth a chwaraewyd ym mhlasty Lleweni, Sir Ddinbych, dros wyliau'r Nadolig 1595.¹⁸ A llifo'n gyson wnaethant i'r gorllewin drwy gydol yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Dyma pryd y daeth caneuon fel 'The King Shall Enjoy his Own Again' (neu 'Difyrrwch y Brenin Siôr') i Gymru, cân a ysgrifennwyd er mwyn hybu achos Siarl y Cyntaf a'r Brenhinwyr, a 'Lilliburlero' ('Bili Bylero' i John Thomas), cân yn erbyn pabyddion, yn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg.¹⁹ Cafodd llawer o'r alawon hyn eu poblogeiddio gan operâu baled y ddeunawfed ganrif, gan gynnwys caneuon ffasiynol o'r Alban megis 'Through the Wood Laddie' a 'Jenny Come Tie My Cravat'. Cyfansoddwyd nifer o faledi Cymraeg hefyd ar y cannoedd o alawon dawnsio a groesodd y ffin – alawon megis 'Petticoat Loose' a'r 'White Joak', a adwaenwyd gan rai baledwyr fel

‘White Chalk’, ac a alwyd yn ‘Gwyngalch Morgannwg’ erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.²⁰ Defnyddiwyd rhai o’r alawon yng nghyd-destun y ddau faes yn ôl llythyr gan yr hynafiaethydd William Jones o Langadfan at Edward Jones ‘Bardd y Brenin’, llythyr sy’n sôn am ddawnsio i alawon baledi adnabyddus megis ‘Ffarwel Ned Puw’, ‘Y Fedle Fawr’, ‘Neithiwr ac Echnos’ a’r ‘Crimson Velvet’.²¹

Erbyn amser John Thomas, roedd llawer iawn o alawon baledi Seisnig wedi hen ymgartrefu yn y traddodiad llafar yng Nghymru, ac i bob prwpas wedi dod yn ddeiliaid Cymreig. Ysgrifennodd yntau’r rhan fwyaf ohonynt yn ei lawysgrif heb arwyddion cywair, arwyddion amser a llinellau bar, ac mae’r rhythm yn tueddu i fod yn afreolaidd, sy’n awgrymu eu bod wedi eu hysgrifennu o’r glust. Mae’r eitemau hyn sy’n deillio o’r traddodiad llafar yn hynod ddefnyddiol i werthfawrogi swyddogaeth John Thomas fel cyfeilydd am eu bod, mae’n debyg, yn nes at y fersiynau a chwaraewyd ganddo, gan nad oedd wedi eu golygu i gydymffurfio â safonau ei ddydd. Y fersiynau hyn sy’n sail i’r drafodaeth isod.

Mae’r mwyafrif o’r alawon baledi sydd o dras Cymreig ac sydd wedi eu hysgrifennu yn y nodiant afreolaidd hwn yn cyfateb i eiriau’r baledi heb fod angen unrhyw addasu arnynt. Mae ‘Mentra Gwen’ yn enghraifft dda o hyn (gw. Atodiad 1). Gwelir bod fersiwn John Thomas, gyda’i rhythm anwastad a’i ddiffyg barrau yn dilyn rhythm naturiol y canwr. Ymddengys nodyn olaf y brawddegau unigol yn ddieithriad fel crosietyn yn hytrach na minim neu finim dot (ar wahân i’r bar olaf); mae hyn yn dilyn tuedd naturiol y canwr i gymryd dim ond seibiant cwta i gael ei wynt ato ar ddiwedd brawddeg, yn hytrach na chyfrif pob un curiad cyn mynd ymlaen i’r frawddeg nesaf. Yn ail gainc y gerddoriaeth mae’r diweddebau benywaidd yn nodweddiadol o ganeuon Cymraeg ond yn beth anarferol iawn mewn baledi Saesneg a cherddoriaeth ddawns. Mae fersiwn offerynnol John Parry (Rhiwabon) yn *British Harmony* (1781) yn dra gwahanol, gan ei fod yn cywasgu’r alaw i guriad 2/4 safonol. Serch hynny, mae alaw John Thomas yn cynnwys mân-addurnodau, lle mae’r caneuon a gasglwyd gan John Jenkins ‘Ifor Ceri’ ar ddechrau’r

bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft, yn cael eu nodweddu gan ddiffyg addurno;²² ymddengys addurnodau felly yn aml iawn yn llawysgrif John Thomas, ac mae'n dra thebygol eu bod yn rhan o'i ddull o berfformio.²³ Eto i gyd, nid yw'n cynnwys unrhyw fath arall o addurno nac unrhyw agweddau eraill sy'n nodweddiadol o fersiynau offerynnol megis cyfresi o nodau camu ychwanegol neu neidiadau eang eu cyfwng. Ar wahân i ychwanegu'r mân-addurnodau, mae'n ymddangos bod John Thomas, ar y cyfan, wedi dysgu a chofnodi'r alawon baledi Cymreig fwy neu lai fel y'u canwyd hwy gan y baledwyr.

Addaswyd rhai o'r alawon Seisnig hefyd i'r iaith Gymraeg yn yr un modd. Mae 'Gwêl Adeilad' yn enghraifft eithafol (gw. Atodiad 2). Gwelir fersiwn o'r alaw mewn llyfr *virginal* o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg yn D leiaf gyda churiad 4/4 cyson. Ond cofnododd John Owen, Dwyran, fersiwn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y modd Doriaidd, gyda rhythm anwastad. Ymddengys fersiwn John Thomas yn debyg i un John Owen. Mae'r rhythm wedi ei addasu i'r mesur Cymreig i'r graddau ei bod yn amhosibl cysoni'r alaw i guriad rheolaidd; o ychwanegu llinellau bar, gwelir bod bar 5 yn ymestyn i gynnwys chwe churiad, tra ceir pum curiad ym marrau 9–11, a dim ond dau ym mar 6.

Nid yw pob un o alawon baled John Thomas yn addas ar gyfer y geiriau a oroesodd ar eu cyfer. Mae strwythur rhai ohonynt, fel 'Ffarwel Ned Puw', yn dilyn patrwm cwbl wahanol i'r geiriau; mae'n bosib yn yr achos hwn mai fersiwn dawn oedd hi. Nid yw mwyafrif yr alawon sydd o dras Seisnig yn dilyn rhythm naturiol y baledi Cymraeg perthnasol; maent yn tueddu i gynnwys mwy o nodweddion offerynnol, fel nodau camu ychwanegol a neidiadau mawr. Serch hynny, mae'n bosib fod John Thomas wedi cyfeilio i faledwyr a chynnig fersiynau oedd yn cynnwys rhyw elfen o amrywiaeth offerynnol; mae ambell eitem ddiddorol megis 'Crimson Velvet' (gw. Atodiad 3), gyda chyfuniad o nodweddion lleisiol ac offerynnol, yn awgrymu hyn. Daw fersiwn cynharaf 'Crimson Velvet' o lyfr *Cantus, Songs and Fancies. To Thre, Foure, or Five Partes, both apt for Voices and Viols gan John Forbes* (Aberdeen, 1662). Dilyn patrwm 3/2 a wna fersiwn John Thomas, ac yn hyn o beth mae'n debyg

i'r fersiwn Seisnig, ond mae ôl y traddodiad llafar Cymreig i'w weld arno hefyd; mae'r anacrwses ychwanegol (ar ddiwedd y bar cyntaf, er enghraifft) yn dangos bod y rhythm wedi'i ymestyn oherwydd bod y canwr yn cymryd ei wynt ar ddiwedd y frawddeg, ac mae'r diweddebau'n gorwedd ar y curiad gwan lle roeddynt yn gryf yn y fersiwn Seisnig (er enghraifft ym marrau 6 a 7). Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif cyhoeddodd John Parry (Rhiwabon) fersiwn arall o'r 'Crimson Velvet' yn *British Harmony*, dan yr enw Cymraeg newydd 'Cwyn Brython'. Mae'n amlwg fod y barrau estynedig yn rhan mor gynhenid o'r alaw erbyn hynny nes gellid ei safoni i guriad 4/4. Erbyn cyfnod Ifor Ceri, roedd y duedd Gymreig i gywasgu dwy sillaf gyntaf y bar er mwyn ffitio rhythm y geiriau wedi cynhyrchu fersiwn 3/4. Ond o droi'n ôl at fersiwn John Thomas, gwelir yno gryn dipyn o nodau camu a ffigurau graddfaol, megis ym marrau 10–11; nid yw'r rhain yn y fersiwn Saesneg nac yn fersiwn Ifor Ceri, ac mae'n debyg mai addurnodau offerynnol ydynt. Yn hyn o beth mae alaw John Thomas yn debycach i'r fersiwn offerynnol a welir yn *British Harmony*. Os dyma'r fersiwn a ddefnyddiodd John Thomas i gyfeilio i gantorion, ymddengys fod ei ddull o gyfeilio weithiau yn caniatáu cryn ryddid i'r ffidil amrywio'r gainc tra bod y canwr yn cadw at yr alaw sylfaenol – dull sydd, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu rhai o nodweddion y traddodiad canu penillion.

Penillion

Fe wyddys i o leiaf 19 o alawon John Thomas gael eu defnyddio ar gyfer canu penillion yn ystod y ddeunawfed ganrif. Ymddengys enghreifftiau cynnar o rai ohonynt mewn ffynonellau allanol ynghyd â geiriau ar y gainc ar ddull canu penillion, tra bod rhai alawon eraill yn gwbl anaddas ar gyfer y geiriau baledol a oroesodd i'n cyfnod ni. Cynhwysa cyfrol Edward Jones *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* ambell enghraifft o gainc gyda phenillion wedi'u gosod arni, yn eu plith 'Gadael Tir', 'Sibyl' a 'Hob y Deri Dando'. Cynhwysir dwy alaw arall yn llythyr William Jones o Langadfan at Edward Jones, sef 'Mwynen Mai' a

‘Triban Morgannwg’, ac mae gohebiaeth Lewis Morris yn ychwanegu un arall, sef ‘Blodau Llundain’.²⁴ Ond y brif ffynhonnell yw’r llawysgrif a baratowyd tua 1745 gan John Parry Ddall ac Ifan Wiliam fel sampl y gyfrol oedd i ddilyn *Antient British Music*, sampl sy’n cynnwys saith cân gyda geiriau Cymraeg ac sy’n honni arddangos ‘the Nature of singing with the Harp, Violin, &c. at this time by the Welsh’. Trafodwyd y ffynonellau hyn yn fanwl, yn gyntaf gan Osian Ellis ac wedyn gan Meredydd Evans a Phyllis Kinney.²⁵ Ceir cryn anghytundeb rhyngddynt p’run a yw’r enghreifftiau cynnar o ganu penillion yn cynrychioli parhad yn y traddodiad Cymreig hynafol ai peidio – eto i gyd, nid dyna’r testun trafod yma. Yn fyr, ymddengys fod dau brif wahaniaeth rhwng gosodiadau’r ddeunawfed ganrif a gosodiadau cerdd dant cyfoes. Yn gyntaf, tuedd y datgeinydd oedd glynu’n nes at y gainc, gan symleiddio’r alaw ar adegau i’r graddau ei bod yn ymdebygu i lafarganu; dywed Edward Jones, ‘While the Harp to which they sing is perhaps wandering in little variations and embellishments, their singing is not embarrassed, but true to the fundamental tune’.²⁶ Disgrifia Iolo Morganwg y math hwn o ganu mewn geiriau llymach, gan sôn am y canu a glywodd yng Ngogledd Cymru yn saithdegau’r ganrif fel:

a kind of chaunt ... In singing to the harp whatever tune is played whether solemn or gay, slow or brisk the songster sings his very various kinds of stanzas ... to the same dull chant, which is [to] say the best [that] can [be] said of it, is nothing better than a tollerable drone to the harp.²⁷

Yr ail brif wahaniaeth oedd fod cantorion y cyfnod cynnar yn hapus i gymryd seibiant bach yn ystod y canu, a golygai hyn fod pytiau offerynnol byr ar adegau rhwng llinellau’r pennill. Defnyddiwyd y ffynonellau uchod yn batrwm wrth geisio gosod geiriau ar alawon penillion John Thomas (gweler yr Atodiadau isod).

Mae’n anodd deall yn union sut yr oedd John Thomas yn cyfeilio i ganu penillion, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, ni ellir cymryd yn ganiataol fod yr 19 o alawon yn boblogaidd ar gyfer canu penillion yn ei ardal ef; mae’n bosib ei fod yn gyfarwydd â rhai fel alawon dawns yn

uni. Yn ail, hyd yn oed os cyfeiliai John Thomas i ganu penillion, mae'n dra thebygol ei fod wedi cofnodi fersiynau dawnio yn ei lawysgrif, ac nid rhai ar gyfer canu. Mae'n bosibl y byddai wedi addasu ei chwarae ryw faint ar gyfer cantorion, efallai yn symleiddio ambell fersiwn mwy cyn hleth neu chwarae cyfres o amrywiadau byrfyfyr ar alawon eraill. Y mae natur canu penillion yn rhoi cryn dipyn o ryddid i'r offerynnwr yn hyr o beth. Nid cyfeilydd ydyw mewn gwirionedd, ond rhywun sydd yn darparu'r gainc, ac mae'n rhydd i newid rhythm ac alaw, gan fod y llais yn annibynnol ar y gainc ac yn amrywio yn ôl y mesur. Dyma'r rhyddid y cyfeiria Edward Jones ato wrth ddisgrifio telynorion yn ychwanegu 'little variations and embellishments' wrth chwarae ar gyfer canu penillion.

Gwelir y rhyddid hwn yn fersiynau John Thomas; prin iawn y byddai'n cyfywyno alaw blaen, ganadwy a oedd yn dilyn mesur y geiriau'n agos. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw ei ddau fersiwn o 'Syr Harri Ddu', neu 'Black Sir Harry' fel y geilw hwy (gw. Atodiad 4). Ceir fersiwn o'r alaw hon, ynghyd â geiriau, yn llawysgrif Ifan Wiliam – fersiwn sydd yn anarferol iawn o safbwynt cerdd dant fodern gan fod pob un llinell leisiol yn dilyn dau far offerynnol. Ond mae fersiwn Ifan Wiliam yn fwy canadwy nag un John Thomas – mae fersiwn John Thomas yn neidio saith nodyn yn llinell gyntaf y pennill, ac yn fersiwn ffolio 64 mae yna ffigur hanner-cwafer ar ddechrau'r trydydd bar. Nid yw'n dilyn y geiriau fel y gwna Ifan Wiliam gyda rhythm cyson a diweddebau benywaidd. Serch hynny, gallai'r cantor fod wedi canu ei linell yn fyrfyfyr uwchlaw melodi John Thomas yn ddigon didrafferth; ac efallai fod y ffidlwr weithiau yn ei gynorthwyo gan chwarae melodi debycach i un Ifan Wiliam (fel y mae barrau 15 i 16 yn fersiwn ff. 64 yn awgrymu).

Mae 'Ffarwel Phylip Ystwyth' (gw. Atodiad 5) yn dilyn yr un patrwm â 'Syr Harri', ac mae'n ymdebygu i'r fersiwn o 'Blodau Llundain' a ymddengys mewn llythyr gan Lewis Morris. Gosodwyd cerdd o waith Lewis Morris arni, dan y teitl 'Cerdd i Fenyw, ar Phylip Ystwyth'. Fe geir dau fersiwn o'r alaw gan John Thomas – un mewn nodiant arferol (ff. 54) ac un mewn math ar nodiant ffidil (ff. 75). Eto, nid yw'r naill na'r llall

yn dilyn rhythm a diweddebau'r geiriau yn union, ac mae fersiwn ff. 54 yn cynnwys naid dros gyfwng wythfed ym mar 4, sydd yn anarferol mewn unrhyw fath o ganu Cymreig; ond mae'n bosibl ysgrifennu llinell leisiol seml sydd yn priodi i'r ddau fersiwn.²⁸

Gellir disgrifio alawon penillion John Thomas, felly, fel fersiynau offerynnol sydd yn cynnwys rhythmau nad ydynt yn dilyn mesur y geiriau, gyda gormodedd o nodau camu, a chainc eang ei chwmpas sydd ar rai adegau yn neidio dros gyfyngau eang. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng yr alawon penillion a'r alawon dawnsio yn y llawysgrif. Efallai mai alawon dawnsio yn unig oeddynt i John Thomas; ond wedi ystyried swyddogaeth yr offerynnwr mewn canu penillion a'r annibyniaeth rhwng y llinell leisiol a'r llinell offerynnol, mae'n bosibl ei fod wedi eu defnyddio hefyd ar gyfer canu penillion.

Clo

Ymddengys fod yr arfer o ddefnyddio offerynnau bwa ar gyfer cyfeilio i ganu yn ymestyn yn ôl i Gymru'r Oesoedd Canol, pan ddefnyddiwyd y crwth i'r perwyl hwnnw. Fel y disodlwyd y crwth gan y ffidil, cymerodd y ffidilwr y cyfrifoldeb hwn ac erbyn y ddeunawfed ganrif mae'n debyg ei fod yn cyfeilio weithiau i ganu penillion yn y mesurau Cymreig ac yn fwy aml i ganu baledi. Mae'r ffaith fod geiriau wedi bodoli i oddeutu 120 o alawon John Thomas yn awgrymu bod cyfeilio i gantorion yn un o'i swyddogaethau.

Cyfeilio i faledwyr y byddai John Thomas fel arfer. Gwelir tua chant o alawon baledi yn ei lawysgrif: tua deugain ohonynt yn unig sydd o dras Gymreig. Yn ogystal â'r rhai a gyfansoddwyd fel alawon baledi yn unig, deillia'r alawon Cymreig o'r traddodiad dawns, ac weithiau fe'u defnyddiwyd hwy yn y ddau gyd-destun. Proses hir oedd mewnllifiad alawon y baledi Seisnig i Gymru, gan ddechrau tua'r unfed ganrif ar bymtheg; erbyn y ddeunawfed ganrif roedd llawer ohonynt yn rhan annatod o'r traddodiad llafar Cymreig, a daw'n amlwg o'u nodiant mai o'r traddodiad hwnnw y dysgodd John Thomas y mwyafrif ohonynt.

Dengys y rhan fwyaf o alawon baledi'r llawysgrif sydd o dras Cymreig ôl y traddodiad canu; mae'r rhythm hyblyg a'r curiad ansefydlog yn dilyn acennu naturiol y geiriau Cymraeg. Yr unig addurno yw'r mân-addurnodau sydd yn nodweddiadol o alawon John Thomas drwy gydol y casgliad. Dengys rhai o'r alawon Seisnig hefyd y nodweddion hyn; fe'u haddaswyd gymaint i gyfateb i'r traddodiad llafar Cymreig fel mai prin y byddai unrhyw Sais yn eu hadnabod. Eto i gyd, mae'r rhan fwyaf o'r alawon Seisnig yn cynnwys nodweddion offerynnol yn hytrach na lleisiol, ac mae galw am gryn addasu i gydweddu â'r geiriau sydd arnynt. Er bod rhai ohonynt yn fersiynau offerynnol pur, mae'n bosibl fod rhai'n cynrychioli dull mwy amrywiol o gyfeilio, dull sydd yn deillio o'r traddodiad canu penillion.

Defnyddiwyd 19 o alawon John Thomas ar gyfer canu penillion, ond nifer cymharol fychan sydd yn adlewyrchu'r ffaith mai'r delyn oedd prif gyfrwng cyfeiliant y math hwnnw o ganu. Gwelir nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng dull alawon penillion a dull alawon dawnsio yn y llawysgrif; golygai symrlwydd ac annibyniaeth y llinell leisiol fod yr offerynnwr yn rhydd i chwarae fersiwn mwy amrywiol neu fersiwn a fyddai'n fwy priodol ar gyfer yr offeryn. Er ei bod yn ddigon posibl fod John Thomas wedi cyfeilio i ganu penillion gyda'r fersiynau hyn, eto i gyd nid oes modd bod yn sicr.

Adlewyrcha'r alawon penillion a baledi sydd yn llawysgrif John Thomas, nid yn unig ddefnyddio'r ffidil fel offeryn cyfeiliant, ond hefyd gyflwr y traddodiadau canu yng Nghymru yng nghanol y ddeunawfed ganrif. Mae'n treiddio ymhellach i faes dyrys canu penillion yr adeg honno, a dengys sut y gallai'r alawon Seisnig, a oedd mor boblogaidd ymhlith y werin bobl, gael eu Cymreigio'n llwyr o dan ddylanwad canu Cymreig y cyfnod hwnnw. Drwy gyfrwng y casgliad cynhwysfawr hwn, ceir cipolwg ar draddodiad llafar egniol ac iach – traddodiad a dderbyniai elfennau estron ac a fu'n barod i goleddu nodweddion ac arddulliau newydd gan gadw'r hunaniaeth Gymreig.

Atodiad 1 'Mentra Gwen'

JT ff. 68r

BH t. 32
(yn wreiddiol
yn 2/4)

Y fwyn ga - re - dig ferch, mentra Gwen, mentra Gwen, Lle rhoddais i fy

10

serch, mentra Gwen; Gwaith dyn wyf fi mewn galar, yn ffael cerdded daear, o'rh

15

gariad di'r fun hawddgar; Rwy'n deisyf cael dy ffafar, mentra Gwen, mentra Gwen.

Atodiad 2 'Gwêl Adeilad'

JT ff. 68r
John Owen,
Dwyran
rhif. 16
BBB l. 641
Llyfr *virginal*,
c.1600-25

Mac'r durtur bër yn ca - nu A'r byd yn gor - fo - le - ddu Mewn
A choed y maes ynt e - to Oll fel yn cu - ro dwy - lo Mewn

5

gwir fyw lwyddiant, Ca'r gwyn a gwridog fawl am hyn, Llu'r
clod a moliant; Mewn pryd, la - chawdwr mawr y byd Ddaeth

10

nef a'i moliant, a'r llawr cyd-ganant, Hwyl'n un e - nynnant, pob un â'i dant yn
ar ei orsedd i roi tru - garedd l blant y llygredd fu 'mwill eu camwedd

15

dynn cyd; A'u tan - llyd an - them i - ddo, Nes atsain bro a bryn.
Teyr - na - sa di - rion le - su* Yw gwaedd ei deu - lu i gyd.

Atodiad 3 'Crimson Velvet'

JT ff. 67v

BBB l. 142 (o Forbes, *Cantus* 1662; G lledaf yn wreiddiol)

BH l. 38 'Cwyn Brython'

Per-seiniau rhif 8
 'Y Ffion Felled neu Crimson'
 (G lleiaf yn wreiddiol)

Wel dyma'r pryd no - dedig: Na - do - lig hy - nod wyliau; Er
 Drwy'r oesau nid rhod - reswaith, ond mawrwaith anghyd - marol, vewn

5

co - fio'r le - su perfffaith, a'i ra - sol waith drwy'r oesau;
 go - lau air eg - lurwyd, a daen - wyd i ryw dynol.

Rhyw dynol, daeth rhad Unwr i'w dwyn o'u hi - sel gyflwr, Hwn
 Mab Duw is - law pob gwaelled, Mab Mair uwchlaw pob mawredd, Yn

10

yw Byw- iaw - dwr mawr y byd; Y byd, mewn an - wy - bodaeth, oedd
 Brynwr rhy - fedd i bar - hau; Par - hau mewn an - feid - roldeb, o

lawn o ddu c - lyniaeth, Yn ddi - rag - or - iaeth oll i gyd.
 gariad a ffydd - londeb, Pob dawn a phurdeb i'w coff- hau.

Geiriau: Dafydd Ddu Eryni, *Corph y Gaingc* (Dolgellau, 1810) t. 78: 'Carol Nadolig'

Atodiad 4 'Black Sir Harry'

JT ff. 54r
JT ff. 64r
 (D yn wreiddiol)
ABMii
 (C fwyaf yn wreiddiol)

Gwyn ei fyd a gai dy gan - lyn,

5

Harri fwyn, a dwyn dy delyn.

10

Y nos i orwedd yn dy freichiau;

15

Dawnsio'r dydd lle chwarae dithau.

Atodiad 5 'Ffarwel Philip Ystwyth'

llynell
leisiol
bosibl

JT ff. 54r

JT ff. 75v
(nodiant
ffidil)

5

Mae gennyf berllan ym Môn Ynys,
Ni cha'i gan ei cheidwad milan

A'i

10

choed yn deg a'i ffrwyth yn felys.
Brofi dim o ffrwyth fy mherllan.

Mi fynnaf chwilio am ddarnen ddedwydd,
Mi af fy hun yn geidwad ar - ni;

15

Lle caffo'i blannu perllan newydd.
Heb brofi o'i ffrwyth ni waeth bod hebddi.

Ym-

20

Nos a dydd yn brudd mi a'i cadwa,
- borthaf ar ei melys ae - ron;

Ag ar ei chanol y gor - wedda.
Dyna fyd wrth fodd fy nghalon.

Geiriau: Lewis Morris, 'Cerdd i Fenyw, ar Phylib Ystwyth' (BL L1sgr Add. 14937, l. 16).

TALFYRIADAU

ABMii: Ifan Wiliam a John Parry (Rhiwambon), Sampl ail gyfrol *Antient British Music* (c. 1745).

BBB: C. M. Simpson, *The British Broadside Ballad and its Music* (New Brunswick, New Jersey, 1966).

BH: John Parry (Rhiwabon), *British Harmony* (Rhiwabon/Llundain, 1781).

John Owen, Dwyran: P. Kinney a M. Evans (gol.), *Hen Alawon (Carolau a Cherddi)*: *Casgliad John Owen, Dwyran* (CAGC/AWC, 1993).

JT: Llawysgrif ffidil John Thomas: LLGC Llsg. J Lloyd Williams 39.

‘Melus-seiniau’: John Jenkins (‘Ifor Ceri’), ‘Melus-seiniau Cymru’: LIGC Llsg. 1940Ai.

‘Per-seiniau’: John Jenkins (‘Ifor Ceri’), ‘Per-seiniau Cymru’: LIGC Llsg. 1940Aii.

Atgynhyrchir uchod fersiynau o alawon JT fel ag y maent yn ymddangos yn y llawysgrif, ar wahân i’r newidiadau canlynol:

- Atodiadau 1, 2, 3: ychwanegwyd llinellau bar.
- Atodiad 5, fersiwn ff. 75v: adluniwyd o nodiant ffidil John Thomas, sy’n hepgor unrhyw gyfarwyddiadau rhythmig, arwyddion cywair, neu arwyddion amser.

Trawsgyweiriwyd rhai fersiynau lle y nodir hynny, er mwyn cyfleustra.

Rhoddir pob arwydd cywair, arwydd amser a marc ailadrodd nad yw’n ymddangos yn y llawysgrif wreiddiol mewn cromfachau.

NODIADAU

- 1 LIGC Llsg. J. Lloyd Williams 39. Cyflwynodd Phyllis Kinney gynnwys y llawysgrif hon i’r Gymdeithas yn ei phapur ‘John Thomas’s Fiddle Manuscript’, a gyhoeddwyd yn *Canu Gwerin* 22 (1999), tt. 43–51.
- 2 Thomas Parry, *Baledi’r Ddeunawfed Ganrif* (arg. diwygiedig, Caerdydd, 1986), tt. 139–166.
- 3 Bethan Miles, ‘Swyddogaeth a Chelfyddyd y Crythor’ (traethawd MA, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1983), t. 472.
- 4 Philip Sidney, *A Defence of Poetry*, gol. J. A. Van Dorsten (Rhydychen, 1966), t. 46.
- 5 Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (ail arg., Llundain, 1794), t. 62.
- 6 J. Lloyd Williams, *Y Tri Thelynor* (Llundain, 1945), t. 64 (myfi biau’r italeiddio).

- 7 J. H. Davies, *Lewis Morris (and his brothers Richard, William and John) Letters (1728–1765)* (2 gyf., Rhydychen, 1906, 1909), Cyf. I, t. 270 (13/1/1754).
- 8 *ibid.*, Cyf. I, t. 270 (13/1/1754).
- 9 *ibid.*, t. 315 (14/10/1754).
- 10 Er gwaethaf ei enw, y ffidil ac nid y crwth oedd offeryn Rhydderch Grythor; cyfeiria ‘Glasynys’ yn ddiweddarach at ‘ei hen ffidil a’i fwa’: gw. I. Foulkes (gol.), *Cymru Fu* (Wrecsam, 1862–4), t. 342.
- 11 *ibid.*, t. 340.
- 12 Rwyf yn ddiolchgar iawn i Dr Meredydd Evans am ei gymorth ym maes yr anterliwt.
- 13 Twm o’r Nant, *Cyfoeth a Thlodi* (1768), t. 266. Mae’n debyg mai maint a hygludedd y ffidil o’i chymharu â’r delyn oedd yn gyfrifol am ei phoblogrwydd ymhlith y chwaraewyr crwydrol.
- 14 I. Foulkes, *Gwaith Twm O’r Nant* (Lerpwl, 1874), t. 144.
- 15 Dafydd Jones, *Blodeu-gerdd Cymry* (Amwythig, 1759), t. 290. Cymysgwyd y termau ‘crwth’, ‘ffidil’ a ‘feiol’ yn aml yn y cyfnod hwn, gw. fy erthygl ‘Eighteenth-century Welsh Fiddlers’ sydd i’w cyhoeddi yn *Hanes Cerddoriaeth Gymreig VI* (Bangor, 2002); defnyddir ‘feiol’ yma er mwyn cynganeddu gyda ‘fawledig’.
- 16 D. Roy Saer, *Famous Fiddlers by the Rev. W. Meredith Morris* (Caerdydd, 1983), tt. 15–17.
- 17 *ibid.*, t. 24.
- 18 Argraffwyd y rhestr hon gan Syr Ifor Williams fel ‘Cerddorion a Cherddau yn Lleweni, Nadolig 1595’, *Bulletin of the Board of Celtic Studies VIII* (1935), tt. 8–10.
- 19 Gweler Claude Simpson, *The British Broadside Ballad and its Music*, tt. 764–768, 449–455 a 90–92.
- 20 Gellir canu baled o’r enw ‘Cerdd o gwynfan yr Awen Iw chanu ar White Chalk’ (LLGC Llsg. Cwrtmawr 229) ar y ‘White Joak’; ymddengys yr alaw fel ‘Gwyngalch Morgannwg’ yng nghasgliad Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (Drenewydd, 1896). Ymddengys pob un o’r alawon a restrir yn y paragraff hwn yn llawysgrif John Thomas.
- 21 LIGC Llsg. 171, t. 40. Mae’n debyg fod fersiynau annibynnol wedi datblygu ar gyfer canu, gan fod yn rhaid i ganwr fynd yn rhy araf a phwysleisio gormod ar y geiriau i fedru dawnsio i’w fersiwn yntau.
- 22 LIGC Llsg. 1940Ai (‘Melus-seiniau Cymru’) a 1940Aii (‘Per-seiniau Cymru’).

- 23 Trafodir dull perfformio John Thomas yn fanylach yn fy nhraethawd MA anghyhoeddedig, 'The Musical Content of the John Thomas Manuscript' (Prifysgol Cymru, Bangor, 1998), tt. xxiv–xxvi.
- 24 Llythyr William Jones: LIGC Llsg. 171, ff. 35; llythyr Lewis Morris: BL Add. Llsg. 14927, ff. 174.
- 25 Osian Ellis, 'Welsh Music: History and Fancy', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1972–73, tt. 73–94; Meredydd Evans a Phyllis Kinney, 'Hanes a Datblygiad Canu Gyda'r Tannau', yn *Gwŷr Wrth Gerdd* (Rhuthun, 1981), tt. 72–91.
- 26 Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks* 1794, t. 61.
- 27 Dyfynnir yn Evans a Kinney, 'Hanes a Datblygiad', t. 81.
- 28 Clywir fersiynau John Thomas o 'Ffarwel Phylip Ystwyth' (o dan enw 'Perllan') a 'Mentra Gwen' ar y gryno-ddisg 'Perllan' gan y band Pigyn Clust (Fflach tradd., 2001, CD244H), wedi eu trefnu ar gyfer dwy ffidil a llais.

NODYN AR DDWY GERDD GAN JAC GLAN-Y-GORS

E. G. Millward

Nid yw'n hawdd deall pam y cefnodd Jac Glan-y-gors ar ei gynefin yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Awgrymwyd iddo ffoi rhag gafael y gyfraith ond dangosodd Bob Owen nad gwir hynny. Awgrymwyd hefyd iddo fynd yn borthmon, 'a'i drwyn fewn llathen at gynffon llo', fel Dic Siôn Dafydd ei greadigaeth enwocaf. Rhaid dweud bod hynny hefyd yn amheus o gofio bod ei dad yn ffermwr digon llwyddiannus. Daeth Robert, ei frawd iau, yn berchen ar nifer o ffermydd yn yr ardal. Diau mai'r unig beth y gellir ei ddweud â sicrwydd yw fod Jac, fel llawer un arall, wedi dianc i ddinas fyrlymus Llundain i wella ei fyd. Ardal bellennig, bron ym mhen draw'r byd, oedd plwyf Cerrig-y-drudion i'r rhan fwyaf o Saeson y ddinas fwyaf yn y byd y pryd hwnnw. Byddai byw yng nghanol bwrlwm masnachol a chymdeithasol Llundain, ac yntau yn gwybod am amodau economaidd ei blwyf genedigol a'r hyn a ystyriai yn orthrwm y llywodraeth a'r eglwys wladol ar werin Cymru, yn rheswm digonol, mae'n siŵr, iddo ymroi i ramantu ynghylch rhagoriaethau tybiedig rhyw oes o'r blaen mewn cerddi fel 'Yr hen amser gynt' a 'Pan oedd Bess yn teyrnasu'. Gyda hynny, yr oedd byw yng nghanol Llundain yn sicrhau bod Glan-y-gors beunydd yn dyst i'r cyfnewidiadau cyflym mewn poblogaeth a datblygiadau dinesig a oedd yn digwydd o'i gwmpas. Erbyn ei farw yr oedd poblogaeth Llundain wedi codi i filiwn a hanner. Nid fel crefftwr yr ymsefydlodd yn Llundain, ond – cyn bo hir – fel tafarnwr i ddiwallu syched y cannoedd lawer a ddeuai i'r Canterbury Arms a'r Kings Head, a'r Cymry alltud yn eu plith. Byddaf yn hoffi meddwl bod gweini i'r lluoedd hyn, a chymryd rhan amlwg yn y cymdeithasau Cymreig, wedi rhoi min ar y sylwadaeth graff a'i gwnaeth yn un o brif ddychanwyr ei gyfnod.

Dylid dweud cymaint â hynny am brofiad personol Jac Glan-y-gors, a'i anafodlondeb ar ffasiynau, arferion a safonau ei oes ei hun, ond rhaid

cofio bod cerddi Saesneg o'r math a nodwyd yn bur ffasiynol a phoblogaidd ac yn perthyn i *genre* a elwir yn Ganeuon Ystad Prydain. Cerddi oedd y rhain a oedd yn gyfrwng i draethu barn ar wendidau'r oes fodern, i adlewyrchu'r farn gyhoeddus ar gyflwr cymdeithas, gan weu peth dychan i mewn i'r feirniadaeth a chael blas yn ogystal ar ychydig *nostalgia* am ryw oes aur a ddiflannodd dan bwysau cyfnewidiad. Thema llawer o'r caneuon hyn, felly, oedd canmol ac yn wir ddelfrydu'r oes o'r blaen, heb ddiffinio'r oes honno fel arfer, gan ei gwrthgyferbynnu â'r presennol. Tynnodd yr Esgob Thomas Percy sylw at y gân hwyliog 'The Fine Old English Gentleman', a seiliwyd, meddai, ar gân o'r ail ganrif ar bymtheg:

I'll sing you a good old song,
Made by a good old pate,
Of a fine old English gentleman,
Who had an old estate;
And who kept up his old mansion
At a bountiful old rate;
With a good old porter to relieve
The old poor at his gate.
Like a fine old English gentleman,
All of the olden time

Pan ddarllenodd Charles Dickens y gerdd nawddoglyd hon canodd ei fersiwn brathog ei hun yn 1841:

'The Fine Old English Gentleman/New Version/To be said or
sung at all Conservative dinners':
I'll sing you a new ballad, and I'll warrant it first rate,
Of the days of that old gentleman who had that old estate;
When they spent the public money at a bountiful old rate
On ev'ry mistress, pimp, and scamp, at ev'ry noble gate,
In the fine old English Tory times;
Soon may they come again!

Yr hyn a geir gan Jac Glan-y-gors yn 'Pan oedd Bess yn teyrnasu' yw Cymreigiad trwyadl o deip poblogaidd o gân a oedd yn cylchynu ymhell

cyn amser Dickens ac fel y nofelydd rhoes ei stamp ei hun arni. Dywedodd John Hubert Morgan yn ei draethawd M.A. ar Glan-y-gors ei fod wedi methu dod o hyd i'r gerdd a oedd yn sail i 'Pan oedd Bess yn teyrnasu', ond y gwir yw fod amryw o batrymau ar gael. Trawodd Siamas Wynedd (Edward Charles, 1757–1828) yr hoelen ar ei phen pan ddywedodd fod Jac 'wedi ei chymreigio o'r Saesneg' – cymreigio, nid trosi. Cerdd o'r math hwn yw 'When this old hat was new', sydd yn perthyn i ugeiniau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg:

But now the poor is quite done o'er, we know it to be true.

It was not so when Bess did reign and this old hat was new.

Gellir olrhain hon yn ôl at 'Times Alteration' a ganwyd gan Martin Parker (m.1656?), 'When this old cap was new', cerdd y ceir sawl adlais ohoni yn y ddwy gerdd o waith Glan-y-gors:

When this old cap was new—

'Tis since two hundred year—

No malice then we knew,

But all things plenty were:

All friendship now decays,

(Believe me this is true)

Which was not in those days

When this old cap was new ...

New pride hath banish'd all,

Unto our land's reproach,

When he whose means are small

Maintains both horse and coach ...

Our ladies in those days

In civil habit went;

Broad-cloth was then worth praise,

And gave the best content:

French fashions then were scorn'd,

Fond fangles then none knew;

Then modesty women adorn'd,
When this old cap was new.

Cerdd o'r un teip yw 'The Times have Altered' (c. 1820) sydd yn cyfeirio'n benodol at y ffermwyr a'u gwragedd:

Come all you swaggering farmers, whoever you may be,
One moment pay attention and listen unto me;
It is concerning former times, as I to you declare,
So different to the present if you with them compare.

Chorus For lofty heads and paltry pride, I'm sure it's all the go,
For to distress poor servants and keep their wages low.

If you'd seen the farmers' wives 'bout fifty years ago
In home-spun russet linsey clad from top to toe;
But now a-days the farmers' wives are so puffed up with
pride,
In a dandy habit and green veil unto the market they must
ride.

Chorus For lofty heads, etc.

Gall yr hen amseroedd da fod mor bell yn ôl ag amser Adda ac Efa, fel y dengys y gân chwareus 'The Good Old Days of Adam and Eve' (1823) a'i chyfeiriadau aml at ddatblygiadau newydd yn Llundain yn ugeiniau cynnar y ganrif:

I sing, I sing of good times older,
When men than women were the bolder,
When bills were short, and credit shorter,
And when from malt they brew'd the porter.
Then was the time for games and gambols,
When Oxford Street was cover'd with brambles,
Hedges and ditches and ponds of water,
But now there's nothing but bricks and mortar,

Chorus Sing hey, sing ho! I can but grieve,
For the good old days of ADAM and EVE.

Dynwarediad ychydig yn ddiweddarach yw'r 'New Version of Adam and

Eve', un arall o gerddi Llundain:

I sing, I sing, in jingling rhymes, sirs,
In praise of long lost good old times, sirs,
When female servants house work would do,
And dress'd themselves as servants should do.
But now the servants, people tell us,
Think nought but running after the fellows;
And all the money that they gathers,
Goes for finery, hats and feathers

Chorus Sing hey, sing ho, I can but grieve,
 For the good old days of Adam and Eve.¹

Dylid nodi hefyd 'The Farmer's Song or the Golden Times' gan Thomas Sadler a 'The Golden Days of Good Queen Bess' gan John Collins, dau brydydd arall o ail hanner y ddeunawfed ganrif. Wrth ddychanu ffermwyr cefnog, ymhongar ei oes trodd Sadler amser y ferf i'r presennol:

We'll shout amain, and drink again,
O! these are GOLDEN TIMES.

Fel hyn yr agorodd Collins ei fyfyrion dychanus:

To my muse give attention and deem it not a mystery,
If we jumble together music, poetry, and history,
The times to display in the days of Queen Bess, sir,
Whose name and whose memory posterity may bless, sir.
O the golden days of good Queen Bess,
Merry be the memory of good Queen Bess.

Mae'n sicr fod y patrymau poblogaidd hyn ym meddwl Glan-y-gors pan luniodd y ddwy gerdd a enwyd. Fel y baledwyr Saesneg targed amlwg i'w ddychan oedd ffasiynau dillad ei oes. Gwisgai'r hen Gymry'n ddifalch mewn 'lliaian cartre', 'brethyn tew a chlyd', a 'gwlanen lwyd'. Yn Lloegr yr un fath, gwisgai gwragedd y ffermwyr 'In home-spun russet linsey'. Bellach, eu dangos eu hunain yn y ffasiynau diweddaraf yw awydd y merched:

In a decent black silk bonnet to church they used to go,
Black shoes, and handsome cotton gown, stockings as
white as snow,
But now silk gowns and coloured shoes they must be
bought for them,
Besides they are frizzed and furbelowed just like a
friezland hen.

(‘The Times have Altered’)

Y mae peth tebyg yn wir hefyd am y meibion, medd yr un faled:

But now they dress like Squire’s sons, their pride it knows no
bounds,

They mount upon a fine blood horse to follow up the hounds.

Gynt byddai’r dynion yn dangos eu gwroldeb trwy ‘chwarae campau’:

Ar brydnawn gwyliau myned byddai’r llanciau
I ganol llannerch deg, i gadw chwarae campiau:
Rhedeg a neidio y byddai’r rhai gwrol,
Ymaflyd codwm clôs, a thaflu maen a throsol.

Felly hefyd y Saeson:

Then quarter-staff, and cudgel play, and pitching of the bar,
sir,

Were preferred to a flute, to a fiddle, or guitar, sir; ...

(‘The Golden Days of Good Queen Bess’)

Aeth y Cymry a’r Saeson fel ei gilydd yn ysglyfaeth i’r danteithion drud
diweddar:

Into the parlour they do go with coffee, toast, and tea.

(‘The Times have Altered’)

Ac yng Nghymru:

Ni bu yr hen bobl erioed yn yfed brandi,

Ni chadd yr hen wragedd fawr o de a choffi, ...

Yr un yw pwyslais y Cymro a’r Sais, sef mai balchder yw gwreiddyn y
mater:

Nid oedd yn 'r oes honno ond ychydig o falchder ...

Mae Cadpen Balchder ffrom ei wep,

Yn uchel iawn ei hynt ...

For lofty heads and paltry pride, I'm sure it's all the go, ...

When fifty acres they did rent, then money they could save,

But now for to support their pride, five hundred they must
have ...

